Annwyl

Ym mis Ebrill gofynnwn i bawb sydd wedi cwblhau cwrs yma yn ddiweddar gymryd rhan mewn arolwg i ddarganfod beth sy'n digwydd iddynt ar ôl iddynt adael y *brifysgol/coleg*. Roedd gennym ddiddordeb mewn unrhyw waith a/neu astudio pellach y byddech wedi bod yn ei wneud ar 16 Ebrill 2012. Nid ydym wedi clywed gennych eto.

Amgaeir holiadur arall. Ni ddylai gymryd ond ychydig funudau i'w lenwi – y cyfan y mae'r mwyafrif o'r cwestiynau yn gofyn i chi ei wneud yw rhoi tic mewn blwch. Gallwch ei anfon yn ôl atom *yn yr amlen/gan ddefnyddio'r label* a ddarparwyd ac nid oes angen stamp.

Gallwch hefyd lenwi'r holiadur ar-lein ar unrhyw adeg o nawr hyd 25 Mehefin yn ..................... (Bydd angen eich cyfeirnod myfyriwr arnoch, sydd *ar ben y llythyr hwn/ar y label ar yr holiadur/* .......................). Cofiwch mai 16 Ebrill yw'r dyddiad sydd o ddiddordeb i ni, er mwyn i ni allu cymharu gwybodaeth pawb.

Os oes angen cymorth arnoch i gwblhau'r holiadur, neu os hoffech ei gael mewn fformat arall, byddwch cystal â chysylltu â ni yn ....................

Rydym wedi cynnwys rhagor o fanylion *isod/ar y ddalen sydd ynghlwm/ar y cefn /………* ynghylch sut mae'r arolwg yn gweithio a beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth a roddwch.

Er eich bod chi wedi cwblhau eich cwrs, mae'r *gwasanaeth gyrfaoedd* ar gael i chi o hyd i'ch helpu gydag unrhyw faterion yn ymwneud â gyrfaoedd. Os hoffech gael cymorth i hybu eich gyrfa, yna mae croeso i chi gysylltu â ni yn .......................................

Yr eiddoch yn gywir

**Ynghylch yr arolwg**

Mae'r arolwg yr ydym yn gofyn i chi gymryd rhan ynddo yn arolwg cenedlaethol o bawb sydd wedi ennill cymhwyster yn ddiweddar gan unrhyw brifysgol neu goleg Addysg Uwch (AU) yn y Deyrnas Unedig (DU). Bydd y wybodaeth a roddwch hefyd yn ddefnyddiol iawn i ni yn y *brifysgol/coleg*, gan ein galluogi i hysbysu'r myfyrwyr presennol o'r cyfleoedd a allai fod ar gael iddynt.

O blith y rheiny a enillodd gymwysterau ar draws y DU yn **2009/10**, ymatebodd **78.2%** ohonynt i'r arolwg. O blith y rhain, nododd **60.5%** eu bod hwy'n gweithio a nododd **9.2%** arall eu bod yn gweithio ac astudio. Roedd **14.9%** yn ymgymryd ag astudiaeth bellach yn unig. Cymerwyd bod 7**.3%** o ymadawyr yn ddi-waith. I gael rhagor o ganlyniadau ewch i www.hesa.ac.uk/sfr162 .

Os nad ydym wedi clywed gennych cyn bo hir, byddwn yn cysylltu â chi eto, drwy eich ffonio, felly byddwch cystal â rhoi gwybod i ni os newidiwch eich cyfeiriad neu rif ffôn. Os na allwn gysylltu â chi o gwbl, mae'n bosibl y byddwn yn ceisio cael gwybodaeth am yr hyn yr oeddech yn ei wneud gan rywun arall, naill ai yn y *brifysgol/coleg* neu rywun y gallwn ei gyrraedd drwy ddefnyddio'r wybodaeth gysylltu a roddwyd gennych ynghynt. Os nad ydych am i ni wneud hyn, neu os nad ydych am roi unrhyw wybodaeth o gwbl i ni, cofiwch ddweud wrthym. Manylir isod ar yr hyn sy'n digwydd i'r wybodaeth a roddwch i ni.

Bwriedir cynnal arolwg pellach mewn tair blynedd er mwyn cael mwy byth o wybodaeth am yrfaoedd cynnar y rheiny sydd â chymwysterau AU. Gellir gofyn i chi gymryd rhan yn yr arolwg dilynol hwn yn ogystal, a fydd yn cael ei gynnal gan gorff gwahanol. Hefyd gall yr arolwg presennol gael ei archwilio i sicrhau ei fod wedi'i gynnal yn gywir. Os nad ydych am gymryd rhan yn yr arolwg dilynol, neu os nad ydych am i ni gysylltu â chi yn ystod archwiliad, cofiwch roi gwybod i ni. Gallwch hefyd roi gwybod i ni nad ydych am gymryd rhan yn yr arolwg dilynol drwy roi tic yn y blwch ar ddiwedd yr holiadur.

**Beth sy'n digwydd i'ch gwybodaeth**

<Please insert here your own institution's collection notice and then follow with the HESA collection notice as set out below>

---

Byddwn yn anfon gwybodaeth wedi'i chodio o'r ffurflen hon i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA). Drwy ddychwelyd y ffurflen hon, rydych yn derbyn y bydd y wybodaeth hon yn cael ei chysylltu â gwybodaeth arall a gedwir amdanoch chi fel myfyriwr, gan gynnwys gwybodaeth debyg arall wedi'i chodio a roesoch wrth gofrestru, a manylion y cymhwyster a enillwyd gennych. **Ni fydd eich cofnod AYAU yn cael ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd sy'n effeithio arnoch yn bersonol.**

Defnyddir y Cofnod CMGAU AYAU at dri diben cyffredinol:

1. Swyddogaethau statudol

Defnyddir y cofnod AYAU gan y cyrff isod, neu asiantiaid sy'n gweithredu ar eu rhan, i gyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus mewn perthynas ag addysg yn y DU.

- Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau
- Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Llywodraeth yr Alban
- Adran Cyflogaeth a Dysgu Gogledd Iwerddon
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr
- Cyngor Cyllido Addysg Bellach ac Uwch yr Alban
- Mae'r Asiantaeth Addysgu
- Y Cynghorau Ymchwil
- Yr Adran Addysg

Gall y cofnod AYAU gael ei ddefnyddio hefyd gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol i gyflawni eu swyddogaethau statudol mewn perthynas â mesur lefelau poblogaeth a monitro gwariant cyhoeddus.

2. Cyhoeddiadau'r AYAU

Defnyddir y cofnod AYAU gan yr AYAU i gynhyrchu data di-enw mewn cyhoeddiadau ystadegol blynyddol. Mae'r rhain yn cynnwys rhai cyhoeddiadau Ystadegau Cenedlaethol a gwasanaethau gwybodaeth rheoli ar-lein.

3. Ymchwil, cyfle cyfartal, newyddiaduraeth, diddordeb dilys/swyddogaeth gyhoeddus arall Bydd yr AYAU hefyd yn cyflenwi data di-enw i drydydd partion at y dibenion canlynol:

- Monitro cyfle cyfartal - Gall eich cofnod AYAU gynnwys manylion eich grŵp ethnig ac unrhyw anableddau sydd gennych. Ni ddefnyddir y data hyn ac eithrio lle y mae eu hangen i hybu neu gynnal cyfle cyfartal neu driniaeth gyfartal ar gyfer pobl o wahanol darddiadau hiliol neu ethnig, â gwahanol gredoau crefyddol, neu â gwahanol gyflyrau corfforol neu feddyliol.
- Ymchwil. Gall hwn fod yn ymchwil academaidd, ymchwil masnachol neu ymchwil ystadegol arall i addysg uwch lle y mae hyn o fudd i'r cyhoedd.
- Newyddiaduraeth, lle y byddai'r cyhoeddiad dan sylw er budd y cyhoedd e.e. tablau cynghrair.

Caiff data di-enw at y dibenion uchod eu cyflenwi gan yr AYAU i'r mathau canlynol o ddefnyddiwr:

- Cyrff lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sydd â diddordeb mewn addysg uwch
- Cyrff yn y sector addysg uwch
- Sefydliadau addysg uwch
- Ymchwilwyr a myfyrwyr academaidd
- Cyrff masnachol (e.e. cwmniau recriwtio, darparwyr tai, cyflogwyr graddedigion)

- Undebau
- Cyrff anllywodraethol ac elusennau
- Newyddiadurwyr

Bydd yr AYAU yn cymryd camau i sicrhau nad oes modd adnabod unigolion o'r data di-enw a brosesir ganddi.

**Eich hawliau**

O dan Ddeddf Gwarchod Data 1998, mae gennych hawl i weld y data a gedwir amdanoch gan yr AYAU. Rhaid i chi dalu ffi fach am hyn. I gael gwybodaeth bellach am y cofnod AYAU, ewch I www.hesa.ac.uk/dataprot